Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# TECH: Gweithdy Tref SMART – Bethesda 21 Mehefin 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol. Bydd y gweithdy yma, i'w gynnal yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda LL57 3AD ar 21 Mehefin 2022 (5:30pm-7:30pm), yn rhoi trosolwg o'r technegau sydd ar gael, y posibiliadau a gynigir gan WiFi cyhoeddus a chyfle i berchnogion busnes, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i fod yn rhan o'r cynllun gweithredu. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3mXX4VG

## DIGWYDDIAD: Digwyddiad Adeiladwaith – Coleg Meirion Dwyfor 21 Mehefin 2022

Yn y digwyddiad yma, i'w gynnal ar 21 Mehefin 2022 (6:00pm-8:00pm), yn CAMDA, Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau, bydd cyfle i'r sector adeiladwaith gael y wybodaeth diweddaraf am y newidiadau i brentisiaethau, cyrsiau ac ariannu. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3OoZzf5

## IECHYD A DIOGELWCH: Gwybodaeth diweddaraf gan HSE

- Mae'r canllawiau diweddaraf ar atal llithro a baglu yn y gweithle ar gael ar: https://www.hse.gov.uk/slips/index.htm

- Mae Wythnos Iechyd Dynion (13-19 Mehefin 2022) wedi bod yn canolbwyntio ar helpu dynion i ddod yn ymwybodol o'r problemau a allai fod ganddynt neu y gallent eu datblygu, a magu'r dewrder i wneud rhywbeth yn ei gylch. Mae mwy am hyn ar: https://www.menshealthforum.org.uk/mhw

- Mae'n bwysig cofio'r risgiau o orboethi wrth weithio mewn amodau o wres uchel. Mae cyngor a chanllawiau ar dymheredd yn y gweithle ar gael ar: https://www.hse.gov.uk/temperature/index.htm

## DIGWYDDIAD: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngwynedd: sesiynau gwybodaeth ac ymgysylltu i rhanddeiliaid

Y Gronfa Ffyniant Cyffredin yw un o raglenni Llywodraeth y DU sy'n cymryd lle Cronfeydd yr UE. Bydd y Gronfa yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn Cymuned a Lle, Cynorthwyo Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau. Ymhellach i'r sesiynau Gwybodaeth ac Ymgynghori diweddar, bydd gweithdai trafod unigol ar gyfer tri blaenoriaeth buddsoddi'r Gronfa yn cael eu cynnal ar 28 a 29 Mehefin, a 1 Gorffennaf 2022. Gwahoddir rhanddeiliaid lleol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i fynychu'r sesiynau. Am fyw o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3b7QtVI

## DIGWYDDIAD: Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol – Gofal Cymdeithasol 29 Mehefin 2022

Yn y cyfarfod ar-lein yma ar 29 Mehefin 2022 (12:00pm-1:30pm), bydd cyfle i glywed sut y gall modelau cydweithredol helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng yn y sector gofal cymdeithasol. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3b811UN

## ARIANNU: Hwb Cychwyn Cyflym gwerth £30 miliwn Innovate UK

Mae Innovate UK yn lansio cyfres newydd sbon o grantiau gwerth £30 miliwn i gefnogi busnesau arloesol yn y DU. Bydd y grantiau, o hyd at £50,000, yn ffordd gyflym o hybu llif arian, gan helpu i roi hwb i'r syniadau arloesol iawn hynny sydd â llwybr clir at fasnacheiddio. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.ukri.org/news/30-million-fast-start-boost-for-cutting-edge-start-ups/

## CYFLE: Innovate UK EDGE – Rhaglen Scaleup

Mae Rhaglen Scaleup Innovate UK EDGE yn darparu cymorth un-i-un wedi'i deilwra ac wedi'i ariannu, ac mae ar gael i gwmnïau sy'n cyflawni, neu sydd â'r potensial ar gyfer, cyfraddau twf blynyddol cyfansawdd o 50% a throsodd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.innovateukedge.ukri.org/Scale-with-us

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru